Modelau trwyddedu a datblygu ym maes treftadaeth ddigidol

Nick White: Rheolwr Prosiect TG, Cyfadran y Saesneg, Prifysgol Rhydychen/Cyd-Sylfaenydd, Rescribe, ac Antonia Karaisl: Myfyrwraig PhD, Sefydliad Warburg/Cyd-Sylfaenydd, Rescribe

Mae'r mudiad mynediad agored wedi cael cryn effaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf, felly dyma amser da i asesu sut y mae prosiectau treftadaeth ddigidol gyda gwahanol systemau trwyddedu a datblygu yn dod yn eu blaen.

Yn y papur hwn, edrychwn ar rai o brosiectau treftadaeth ddigidol poblogaidd y blynyddoedd diwethaf, a gofynnwn sut y mae'r gwahanol fathau o drwyddedu y maent wedi'u dewis wedi effeithio arnynt, ac a yw'r trwyddedu a ddewiswyd wedi dwyn ffrwyth. Er enghraifft, bu'r gallu i ailddefnyddio meddalwedd a data yn bwysig wrth lunio llawer o brosiectau, ond pa mor aml y bydd hyn yn digwydd mewn gwirionedd, a pha ffactorau eraill sy'n gyfrifol am lwyddiant? Sut y mae dewisiadau trwyddedu yn effeithio ar hyfywedd a hirhoedledd prosiectau y mae'n rhaid iddynt ymdopi â realiti cyfleoedd cyllido mwy ansicr a byrdymor yn wyneb Brexit a llymder? Byddwn yn cloi drwy gynnig argymhellion ac arferion gorau ar gyfer prosiectau newydd sy'n ystyried eu dewisiadau trwyddedu.